# EUR(2) 01-04(p04)w

# Pwyllgor Materion Ewropeaidd Ac Allanol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 22 Ionawr 2004 |
| Amser: | 09:00 am |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgor 3 a 4, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Teitl: | Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Hamdden – trafod materion Ewropeaidd ac allanol |

## Pwrpas

Mae’r papur hwn yn nodi’r modd y mae’r Pwyllgor wedi ymgorffori ystyriaeth o faterion Ewropeaidd ac allanol yn ei raglen waith ac yn tanlinellu rhai o’r materion y bwriedir eu trafod yn y dyfodol.

1.

### Adroddiad ar arian yr UE ar gyfer Prosiectau Diwylliannol.

Yn gynnar yn ei hanes, canfu’r Pwyllgor yr angen i fod yn ymwybodol o brif ffynonellau arian yr UE ac sydd ar gael i weithredwyr mentrau diwylliannol yng Nghymru. Mynegwyd pryder bod llawer o’r cyfrifoldeb am hywyddo rhaglenni ar gyfer y sector diwylliannol heb ei gydlynu yng Nghymru a bod angen gwell proses farchnata a chefnogi..

Ar 15 Hydref 2003, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad (CWLS(2)-04-03(p.5)) oddi wrth Nia Lewis, Swyddog Addysg, Diwylliant a Ieuenctid yn Swyddfa UE Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mrwsel. Roedd yr adroddiad yn hysbysu’r Pwyllgor o’r gwahanol ffrydiau arian sydd ar gael a’r cynlluniau ar gyfer cefnogaeth i ieithoedd lleiafrifol a phrosiectau hamdden.

Bu’r Pwyllgor yn trafod rhaglenni diwylliannol a clyw-weledol yr UE , Diwylliant 2000 a Media Plus. Tynnwyd sylw hefyd at yr effaith a gâi’r cronfeydd strwythurol a rhaglenni ieuenctid ac addysg. Awgrymwyd ei bod yn bosibl y gallai’r sector diwylliannol dderbyn arian o raglenni Ewropeaidd eraill yn enwedig os byddai prosiectau yn cyfrannu tuag at gyrraedd amcanion ehangach yr UE, megis

adfywio economaidd neu gynyddu lefelau cyflogaeth a sgiliau.

## 2. Blwyddyn Addysg trwy Chwaraeon

Mae 2004 yn Flwyddyn Addysg trwy Chwaraeon gan yr UE (EYES) ac mae Ewrop wedi dynodi cyllideb fechan (EUR 11.5 miliwn) ar ei chyfer. Bwriad y Pwyllgor yw codi proffil y rhaglen hon ac annog cyrff Cymreig i gyflwyno ceisiadau am arian. Ym mis Tachwedd 2003, ymwelodd Cadeirydd y Pwyllgor â Fforwm Chwaraeon Ewrop yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau. Roedd y fforwm yn cynnwys lansiad ffurfiol EYES 2004. Yn bresennol yn y lansiad yr oedd nifer o Weinidogion Chwaraeon o bob rhan o Ewrop.

Mae’r Pwyllgor yn cefnogi’r angen i godi ymwybyddiaeth cyrff sydd yn ymwneud ag addysg a chwaraeon am yr angen i gydweithio er mwyn datblygu addysg trwy chwaraeon ar raddfa Ewropeaidd. Bwriad y Pwyllgor yw gweithio’n agos gyda’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y mater hwn.

## 3. Adolygiad Polisi Cyfranogiad mewn Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Un o weithgareddau olaf y cyn Bwyllgor Diwylliant oedd cwblhau ei Adolygiad Polisi ar Gyfranogiad mewn Chwaraeon ac Ymafer Corff. Rhoddodd y Pwyllgor sylw arbennig i strategaethau dramor ac roedd yn awyddus i glywed gan gyfranogwyr eraill. Ym mis Tachedd 2002 gwahoddwyd swyddogion y Weinyddiaeth dros Faterion Cymdeithasol, Iechyd ac Addysg yn y Ffindir i roi tystiolaeth lafar i’r arolwg. Bu eu tystiolaeth a’u hystadegau yn gymorth mawr i’r Pwyllgor ffurfio argymhellion a thanlinellwyd nifer fawr ohonynt yn nogfen y Cynulliad a gyhoeddwyd yn ddiweddarach sef ‘Chwaraeon a Hamdden Gweithredol : Strategaeth er Ymgynghoriad’

## 4. EUCLID

Mae’r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb mawr yng ngwaith EUCLID sef Pwynt Cyswllt Diwylliannol swyddogol yr UE ym Mhrydain ar gyfer Diwylliant 2000. Mae EUCLID yn darparu cefnogaeth a chymorth i ymgeiswyr posibl ar gyfer y rhaglen hon ac arweiniad ar gyfleoedd cyllido Ewropeaidd ar gyfer y sector diwylliannol. Mae’r Pwyllgor wedi sicrhau ei fod yn derbyn diweddariad rheolaidd ar eu gwaith a’r cynnydd y maent wedi ei wneud. Ym mis Medi 2003 anfonodd y Pwyllgor un o’i ymchwilwyr i un o’u seminarau yng Nghanolfan y Chapter, Caerdydd. Roedd rhaglen y seminar yn cynnig arweiniad i’r sector gelfyddydol a diwylliannol ar fynediad at gronfeydd yr UE. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad manwl ar y seminar hwn ac ar y rhaglenni a gynigir.

## 5. Pwyllgor Rhanbarthau yr Undeb Ewropeaidd (CoR)

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn Aelod o Bwyllgor Rhanbarthau’r Undeb Ewropeaidd. Mae’r Pwyllgor yn trefnu ei waith trwy chwe Chomisiwn arbenigol, yn cynnwys aelodau’r CoR, sydd yn archwilio manylion y cynigion y bydd y CoR yn ymgynghori arnynt, ac yn llunio barn ar

ffurf ddrafft sydd yn amlygu’r mannau lle ceir cytundeb gyda chynigion y Comisiwn Ewropeaidd, a’r mannau lle mae newidiadau yn angenrheidiol. Mae’r Cadeirydd yn Aelod o’r Comisiwn dros Ddiwylliant ac Addysg ac mae bob amser wedi ceisio rhoi’r manylion diweddaraf i’r Pwyllgor ar gynigion a fydd o bosibl o ddiddordeb arbennig iddo. Yn ddiweddar, derbyniodd y Pwyllgor 'Farn' a ddarparwyd gan y Cadeirydd ac a oedd yn trafod pwysigrwydd gweithgareddau diwylliannol ar lefel Ewropeaidd ac arwyddocâd gwleidyddol amcanion rhaglen Diwylliant 2000.

## 6. Ymwelwyr o dramor

Ym mis Medi roedd Cadeirydd y Pwyllgor yn croesawu dirprwyaeth o Genhadaeth Cymunedau Fflemaidd mewn cinio arbennig. Mae’r Genhadaeth yn ei hanfod yn gorff deddfwriaethol gan y Gymuned Ffleminaidd ei Hiaith yn Rhanbarth Prifddinas Brwsel ac mae celfyddyd a diwylliant ymhlith y materion sydd dan ei gofal. O ddiddordeb arbennig i’r ddirprwyaeth yr oedd adolygiad blaenorol y Pwyllgor Diwylliant o’r Iaith Gymraeg a gweithrediad strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn yr adolygiad. Cynhaliwyd trafodaeth hefyd ar adolygiad cyfredol y pwyllgor o ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru a’r rhesymeg y tu ôl i’r dewis.

## 7. Ymweliad y Pwyllgor â Västra Götlandsregionen (VG), Gorllewin Sweden

Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd Pwyllgor Diwylliant Västra Götlandsregionen a’r Cyfarwyddwr Materion Diwylliannol, Västra Götlandsregionen ymhlith eraill. Roedd y drafodaeth gyntaf yn ymwneud â chymharu ffurfiant polisi diwylliannol yng Nghymru a thalaith VG. Amlygwyd hefyd faterion ymarfer gorau y gellid eu cyfnewid, yn cynnwys cydweithrediad ym maes cefyddyd gymunedol a chwaraeon i bawb. Y teimlad oedd y byddai hyn yn tymor hirach yn arwain at brosiectau ar y cyd, gweithdai arlunwyr, cyfnewid staff, teithiau, a chyfraniad helaethach mewn gwyliau ayyb.

Cytunodd y partïon i archwilio’r posibilrwydd o ymweliad gan weinyddwyr/arbenigwyr ym myd diwylliant yng Nghymru ym mis Ionawr - yr un adeg ag y cynhelir gwyl ffilmiau Gothenburg, ac yna o bosibl ymweliad gan y Pwyllgor yn y gwanwyn. Byddai ymweliad o’r fath yn digwydd ar yr union adeg y cynhelir adolygiad polisi’r pwyllgor ar gyfraniad celfyddyd a chwaraeon i adfywiad cymunedol.

## 8. Adroddiadau gan y Gweinidog

Bydd y Gweinidog hefyd yn rhoi diweddariad i’r Pwyllgor ar y datblygiadau sydd â dimensiwn allanol ac Ewropeaidd iddynt. Yn ddiweddar roedd y rhai hyn yn cynnwys presenoldeb Cymru yn y Venice Biennale, ariannu’r iaith Gymraeg ym Mhatagonia a chyfarfodydd gyda’r Gweinidogion tramor. Mae’r Cadeirydd hefyd yn ddiweddar wedi mynychu Cyngor Diwylliant yr UE ac wedi darparu adroddiad manwl i’r Pwyllgor.

## 9. Cyfathrebu â Phwyllgorau Eraill

Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ac mae hyn wedi bod o gymorth mawr i drosglwyddo gwybodaeth werthfawr i aelodau'r Pwyllgor hwn pan fydd hynny'n berthnasol.

Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgor yr Aelodau